# Fforwm Rhieni

Mae Ysgol Glanrafon yn awyddus i sefydlu grŵp i helpu'r ysgol a chryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned.

## BETH YW'R FFORWM RHIENI?

Partneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yw'r Fforwm. Bydd yn ffordd werthfawr i rannu syniadau, i helpu efo'r cwricwlwm, ac i gyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

Holl bwrpas y Fforwm Rhieni fydd:

- Gweithio gyda'n gilydd i wella addysg ein plant
- Rhannu sgiliau a gwybodaeth
- Cynnal cyfarfodydd mewn amgylchedd cefnogol cilyddol
- Gwella'r cyfathrebiad rhwng rhieni/gofalwyr a staff/llywodraethwyr.

## PA DREFN FYDD AR Y CYFARFODYDD?

Bydd trefniadau yn cael ei penderfynu gan y Fforwm yn y cyfarfod cyntaf. Syniadau...

- Amser ac amlder – fel rheol, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal unwaith y tymor.
- Hyd – 45 munud, a dim mwy nag un awr. Bydd y rhaglen yn cael ei rhannu cyn y cyfarfod.
- Agenda- i'w rannu wythnos o flaen llaw. Bydd rhaid ychwanegu unrhyw fusnes arall cyn y cyfarfod.
- Cofnodion - byddant yn cael eu rhannu ar ein gwefan ac ar dudalen Fforwm Ysgol Glanrafon.
- Pwyntiau gweithredu – byddant yn cael eu crynhoi yn y cofnodion a byddant yn cael eu gwirio
- Gall y Fforwm yn awgrymu eitemau i'r agenda e.e cwricwlwm, gwaith cartref, clwb, amser chwarae.
- Rhannu llwyddiant – bydd hyn yn bwysig iawn!

## BETH YW EI SWYDDOGAETH?

Bydd y Corff Llywodraethol yn parhau i wneud y penderfyniadau ac i ddarparu arweiniad strategol i'r ysgol. Mae gan Fforwm Ysgol Glanrafon rhan ymgynghorol:

- Cryfhau llais y rhieni a'r gofalwyr
- Galluogi dylanwadu ar benderfyniadau
- Hwyluso mynegi barn a syniadau yn yr ysgol
- Cefnogi'r Corff Llywodraethol i hybu lles buddhaol y plant.

Nid yn unig mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi llwyddiant addysg Ysgol Glanrafon, maent hefyd yn ymrwymo i ethos positif ac i amrwyiad eang o weithgareddau a chyfleoedd y tu hwnt i'r cwricwlwm.

Mae ymwneud a'r Fforwm yn rhoi cyfle i fod yn rhan o'r diwylliant ac i gyfrannu'n ddilys.

## PWY FYDD YR AELODAU?

Mae aelodaeth ar agor i BAWB.

- Rhieni, gofalwyr, neiniau, a theidiau Ysgol Glanrafon sydd â diddordeb mewn helpu darparu'r addysg orau i'n plant.
- Cynrhychioliad gan staff yr ysgol, gan gynnwys Pennaeth Addysg a Dysgu, ac aelodau yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Bydd y llywodraethwyr yn cael eu hannog i ymuno.
- Nid oes uchafswm.
- Rydym yn annog aelodaeth o bob blwyddyn ysgol i sicrhau cynrychiolaeth deg.
- Bydd rhieni yn rhydd i ddewis ymuno gydag unrhyw gyfarfod.

# Sut i ymuno!

| Cyfarfod cyntaf: Dosbarth Mrs Hogg<br>**6pm Nos Fercher, 17eg Tachwedd** | Clicwich yma<br>i gadarnhau eich presenoldeb |
| --- | --- |

Bydd rhaid parhau gyda gweithdrefn arferol yr ysgol lle bod angen cyfeirio unrhyw ofidion neu gwynion at yr athro/athrawes dosbarth neu'r pennaeth. Ni fydd enwau'r plant na'r staff yn cael ei ddefnyddio yn y cyfarfod